

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, **15 Tachwedd 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-11/17: Presennol

Cadeirydd ; Cyng Sian Williams;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Henry Jones; Cyng Elizabeth George; Cyng Elizabeth Reagan.

Mr Steffan Jones, Uwch Rheolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd ar gyfer eitem 11. Torri Gwair

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-11/17 Ymddiheuriadau:

Cyng William A Evans; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts; Cyng Eirwyn Williams

3-11/17: Datgan diddordeb

4-11/17 Cadarnhau cofnodion mis Hydref

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

5-11/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Roedd y Cyngor yn hynod falch o gael y newyddion cyffrous am lwyddiant diweddar iawn cais y Cyngor i ennill grant o £10,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect "Rhyfel Byd Cyntaf Ddoe a Heddiw: Cofio Cyfraniad Criccieth". Diolchwyd i'r Cyng Elizabeth George, Cyng Robert Cadwalader a'r Clerc am eu gwaith yn paratoi'r bid. Nodwyd y byddai Grwp Llywio'r prosiect yn cwrdd ar 7 Rhagfyr ac yn adrodd nôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.
- b. Newyddion Llywodraeth Cymru (ebost 27 Hydref 2017) : Cynllun i annog cydweidthio agosach â llywodraeth leol. Nodwyd bod cynllun a oedd yn amlinellu sail perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Croesawyd hyn.
- c. Nodwyd bod cwyn wedi ei dderbyn drwy law swyddfa'r ICO Comisynydd Diogelu Data am fater oedd wedi codi am gofnodion y Cyngor dros flwyddyn yn ôl. – roedd y newid wedi ei wneud ac ymateb i'r gwyn yn cael ei baratoi.
- d. Nodwyd bod cais wedi dod am rhyddau gwybodaeth bersonol o dan Ddeddf Gwarchod Data 1998 ac hefyd rhyddau gwybodaeth o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Roedd ymateb yn cael ei baratoi.

- e. Nodwyd bod e-bost wedi dod i law oddiwrth Criccieth in Bloom (14/11/2017) – i'w ystryied yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

6-11/17: Gohebiaeth

- a. Un Llais Cymru – epost 29 Medi 2017 – Canllaw i Brif Gyngorau – ymgynghoriad yn rhedeg tan 21 Rhagfyr 2017 Cymru ar ddrafft dogfen sydd wedi ei baratoi gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i swyddogion prif gyngorau ar gyfer sut mae cynnal arolwg o'u cymunedau, gyda'r bwriad o gefnogi mwy o gysondeb o ran y modd y cynhelir arolygon cymunedol. Roedd hefyd wedi'i ddrafftio i roi gwybodaeth i bartion â buddiant, a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn arbennig, ynghlŷn â'r modd y dylai'r broses weithredu – **Penderfyniad:** Derbyn y canllaw – dim sylwadau.

- b. Un Llais Cymru – digwyddiad ymgynghori ar adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref gan Banel Adolygu Annibynnol – epost 2 Tachwedd 2017. Nodwyd bod yna wahoddiad i ateb pedwar cwestiwn:

- Beth ddylai Cyngorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol amdano?
- Sut ddylent weithredu?
- Beth sy'n eu rhwystro rhag cyflawni dros y gymuned leol?
- Sut all cyngorau sicrhau eu bod yn cyflawni orau y gallant dros eu cymuned leol?

Roedd digwyddiad ymgynghori gan Un Llais Cymru 2-4pm ar 28 Tachwedd yng Nghaernarfon.

Penderfyniad: Cyng Sian Williams i fynychu'r ymgynghoriad a'r Cyngor i ystyried ymateb i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod Mis Rhagfyr.

- c. Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig – llythyr 16 Hydref 2017 –roedd gwahoddiad i yrru sylwadau erbyn 11 Rhagfyr 2017.

Penderfyniad: Nodi'r arolwg; dim sylwadau

- d. Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru – llythyr 24 Hydref 2017

Llythyr gan Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru yn gofyn am gefnogaeth i wella lonydd annosbarthedig, Trawsfyrdd Llwybrau .

Penderfyniad: y Cyngor yn cytuno bod sefyllfa y lonydd a llwybrau o dan sylw oddi fewn i ffiniau Cyngor Tref Criccieth yn ffit i bwrpas.

- e. Lawnsiad y Siarter Goed (epost 8/10/2017)

Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn y cais i dderbyn coeden dderw i'w phlannu yn ystod Wythnos Goed Genedlaethol 2017 – 25 Tachwedd – 3 Rhagfyr –

Penderfyniad: y Cyng Sian Williams a'r Cyng Robert Cadwalder i blannu y goeden yn ardal Bont Cwrt ar ddydd Sadwrn 25 Tachwedd (Y Cadeirydd i gysylltu gydag Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd er gwybodaeth). Tynnu llun fel cofnod. Y Cyng Phil Jones i baratoi y tir ar gyfer y plannu.

- f. Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad Gwasanaeth Llyfrgell – eobst 7 Tachwedd 2017
Nodwyd bod adolygiad o Wasanaethau Llyfrgell yng Ngwynedd ar y graddau mae gwasanaethau'n ystyried safbwyntiau a dyheadau'r defnyddwyr ac yn ymateb i'w hanghenion a'u disgwyliadau. : dydd Mercher 13 Rhagfyr – Llyfrgell Criccieth – 2.00 – 4.00
- g. Battle's Over – Canllaw ar gyfer cymeryd ran 11 Tachwedd 2018 – eobst 23 Hydref 2017
Canllawiau wedi eu cylchredeg. Nodi y canllawiau.
Penderfyniad : gofyn i Grŵp Llywio Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth i ystyried y posibiladau.

7-11/17: Ceisiadau Cynllunio

- a. . C17/1046/35/CT Gwaith i goed o fewn Ardal Cadwraeth; The Rectory, y Maes , Criccieth LL52 0AG
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

8-11/17 Adroddiad Is-Bwyllgor Cyllid 9 Tachwedd 2017

Derbyniwyd cofnodion yr Is-Bwyllgor Cyllid a oedd wedi eu cylchredeg:

a. Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref

Nodwyd bod y Panel yn cynnig gwneud nifer o newidiadau mawr i gydnabyddiaeth ariannol aelodau cynghorau Cymuned Tref ar gyfer 2018/19 ac yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar 28 Chwefror 2018 y byddai angen i'r Cyngor i gytuno pa benderfyniadau, sy'n cael eu mabwysiadu yn ogystal â'r rhai sy'n orfodol i'w mabwysiadu.

Penderfyniad: Angen i lunio polisi pan bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi. Cytunwyd bod y mater yn cael sylw gan yr Is-Bwyllgor Cyllid yn y cyfarfod nesaf yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad, er mwyn paratoi argymhellion polisi i'r Cyngor. Nid oedd sylwadau i'w danfon ar yr adroddiad drafft i'r Panel Annibynnol.

b Diweddariad ar gyfrifon 2017-2018

Derbyniwyd y wybodaeth ar gyfer y sefyllfa ariannol i fyny at ddiwedd Hydref 2017. Nodiwyd bod £22,447.39 wedi'i wario o gyllideb o £45,000. Roedd y £1,000 Grant Grŵp wedi'i ychwanegu i'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn i wario ar y Diwrnod Cymunedol ym Mis Medi.

Penderfyniad: derbyn yr adroddiad ariannol

c Cyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19

Trafodwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19 gan gynnwys gosod y praesept ar gyfer y flwyddyn

Argymhellwyd i'r Cyngor y dylid derbyn y gyllideb ddrafft gan nodi bod yna elfennau costau i'w ychwanegu/newid iddo yn ddibynnol ar:

- Drefniant torri gwair y Cyngor
- Ddyfodol yr adeilad
- Y gwariant ar Gynllun Cymunedol Criccieth a oedd yn cael ei baratoi

Oherwydd y cynnydd sylweddol i gostau y Cyngor (a oedd yn 2017/18 yn defnyddio arian wrth gefn i dalu tuag at y gyllideb) ac ymwrwymiad y Cyngor i Gynllun Cymunedol (a oedd yn ddibynnol ar yr arian wrth gefn), argymhell i'r Cyngor **gynyddu y praesept o £34,000 i £36,000 ar gyfer 2018/19.**

Penderfyniad: derbyn y gyllideb drafft ac i gynyddu y praesept yn ôl yr argymhelliad uchod, sef **praesept o £36,000 ar gyfer 2018/19.**

d Nodwyd bod y Clerc wedi cael gwybod ar lafar nad oedd yr archwilydd mewnol a apwyntiwyd yn medru ymgymeryd â'r dyletswyddau. Byddai'n rhaid i'r Cyngor apwyntio archwilydd arall ym Mis Rhagfyr.

Penderfyniad: i gael pris gan ddau gwmni lleol a Chyngor Gwynedd ar gyfer gwneud y gwaith archwilio ar gyfer 2017/18.

9-11/17 Cynllun Cymunedol Criccieth :

Roedd cynnig gan gynnwys pris wedi ei dderbyn gan ymgynghorydd i baratoi adroddiad ar gyfer y dystiolaeth a gasglwyd yn y Diwrnod Cymunedol,

Penderfyniad: –derbyn y cynnig. Disgwylir adroddiad ym Mis Rhagfyr.

10-11/17 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf y byddai y Cyng Sian Williams, y Cyng Elizabeth George a'r Cyng Robert Cadwladar yn trefnu drefnu cyfarfod i dderbyn cyngor cyfreithiol er mwyn ymateb i'r Cyngor Sir

Yn y cyfamser roedd y Clerc wedi sgwennu at Cyngor Gwynedd, ac roedd yr ymateb wedi ei gylchredeg gyda'r papurau. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn fodlon ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo'r adeilad i'r Cyngor Tref naill ai drwy brydles neu rhydd-ddaliad – ond doedd dim gwarant gellir gwneud hynny.

Yn y cyfamser roedd gwbyodaeth wedi dod i law gan Gyngor Gwynedd ar gyfer costau rhedeg yr adeilad.

Penderfyniad: .ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf yn dilyn y cyngor cyfreithiol.

11-11/17 Torri gwair yn y dref

Diolchwyd i Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd am fynychu'r cyfarfod : Trafodwyd yr opsiynau a chostau ar gyfer torri/casglu gwair yng Nghriccieth a fyddai yn ychwanegol i'r toriadau cynnal tiroedd torri a gadael yn 2017.

Penderfyniad: Roedd angen prisiau penodol ar gyfer pob ardal yng Nghriccieth er mwyn i'r Cyngor medru benderfynnu lefel y gwasanaeth ar gyfer 2018, Cytunodd yr Uwch Rheolwr ddarparu y wybodaeth yma i'r Clerc er mwyn medru trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

12-11/17 Goleuadau Nadolig

Roedd y goleuadau yn cael eu gosod ar gyfer eleni. Nododd y Clerc ei bod wedi cydgordio y drwydded briodol ar gyfer y gwaith o ymestyn y goleuadau.

13-11/17: Parcio yng Nghriccieth

Dim i'w adrodd.

14-11/17 Torri Coed yng Nghriccieth

Y Cyng Sian Williams i drefnu cyfarfod gydag Arweinydd y Tîm Bioamrywiaeth

15-11/17 Meinciau Tref Criccieth

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Robert Cadwalader am 12 o feinciau y dref a oedd yn gyfrifoldeb i'r dref.

Angen trwsio 1 ger Bont Du

Ail osod yr un o flaen 12 Min y Mor

1 gyferbyn â Chapel Terrace

Angen ailosod y "slats sydd ar goll ar gyd wal y prom

Y gallai y gweddill wneud â farnais/staen.

Penderfyniad:

- 2 ar y boncan ddechrau prom – angen rhai newydd: i fod yn rhan o brosiect Cofio Cyfraniad Criccieth
- Trwsio yr un ger Bont Du, ac ail osod slatiau ar goll ar y prom - : Cyng Phil Jones i gysylltu gyda'r saer coed arferol ar gyfer gwneud y gwaith
- Cytuno y dylid ail osod y meinciau ar yr Esplanade ac i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd er mwyn cael cyngor ar gcontractwyr i ymgymeryd â'r gwaith yma.

16-11/17 Llwybrau Cyhoeddus

Nid oedd rhagor o wybodath ar gyfer cwblhau y gwaith wedi dod i law.

17-11/17: Derbyniadau

18-11/17: Taliadau

- | | |
|---|---------------------|
| • Cyllid y Wlad (PAYE) | £126.80 Siec 101201 |
| • Cyflog y Clerc | £506.49 Siec 101202 |
| • Costau Teithio Clerci (Cynhadledd Un Llais Cymru 30/9/2017... | £84.60 Siec 101203 |
| • Eka Arch Limited | £792.00 Siec 101204 |

Rhodddwyd caniatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 11 Rhagfyr 2017**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 2 Rhagfyr 2017****